



Cystadleuaeth Ffilm Diwrnod Defnyddio'r Rhyngwrwyd yn Fwy Diogel Llywodraeth Cymru

Rheolau cystadlu Categori Cynradd

1. Mae'r categori Cynradd yn rhan o Gystadleuaeth Diwrnod Defnyddio'r Rhyngwrwyd yn Fwy Diogel Llywodraeth Cymru.
2. Dim ond plant oedran cynradd fydd yn cael cymryd rhan yng nghategori Cynradd y gystadleuaeth (erbyn y dyddiad cau).
3. Mae cystadleuaeth Ffilm Diwrnod Defnyddio'r Rhyngwrwyd yn Fwy Diogel Llywodraeth Cymru yn agored i ysgolion a sefydliadau ieuencid Cymru yn unig.
4. Byddwn yn derbyn ffilmiau Cymraeg neu Saesneg (neu ddwyieithog).
5. Mae'n rhaid i ymarferwyr/athrawon lofnodi'r ffurflen gais ar ran y dysgwyr. Dim ond ymgeiswyr â ffurflen gais wedi'i llofnodi gan eu hathro, ymarferydd neu arweinydd ieuencid fydd yn cael eu hystyried ar gyfer y gystadleuaeth. Y cofrestrydd a enwir fydd yn gyfrifol am hebrwng, neu am drefnu cynrychiolydd ysgol neu sefydliad ieuencid i hebrwng y bobl ifanc i ddigwyddiad y rownd derfynol yng Nghaerdydd, os cânt eu dewis i fod yn y rownd derfynol.
6. Mae'n rhaid cyflwyno pob ffilm i onlinesafety@swgfl.org.uk trwy **WeTransfer** ynghyd â ffurflen caniatâd cyfryngau wedi'i llenwi a'r ffurflen gais wedi'i llofnodi erbyn **5pm ddydd Gwener 6 Rhagfyr 2019**. Ni fyddwn yn ystyried ffilmiau a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn ar gyfer y gystadleuaeth.
7. Bydd y ffilmiau buddugol yn y categori hwn yn ymddangos ar Hwb ac yn cael eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru a rhwydweithiau Canolfan y DU ar gyfer Defnyddio'r Rhyngwrwyd yn Fwy Diogel.
8. Caniateir i ysgolion a sefydliadau ieuencid gyflwyno mwy nag un ffilm, ond un ffilm yn unig ar gyfer pob dosbarth. Sylwch, os bydd un o'r ffilmiau a gyflwynir yn llwyddiannus ac yn mynd ymlaen i ddigwyddiad y rownd derfynol, dim ond y bobl ifanc a oedd yn rhan o greu'r ffilm benodol honno fydd yn cael eu gwahodd i'r digwyddiad oherwydd niferoedd cyfyngedig.
9. Er mwyn sicrhau bod Cystadleuaeth Ffilm Defnyddio'r Rhyngwrwyd yn Fwy Diogel Llywodraeth Cymru yn gystadleuaeth deg, dim ond ceisiadau a gynhyrchwyd ar y cyd rhwng y plant a'u hysgol/ lleoliad ieuencid y byddwn yn eu derbyn, lle ceir ymdrech greadigol ar y cyd i greu ffilmiau y gellid eu defnyddio i addysgu plant am ddiogelwch ar-lein.
10. Rhaid i'r ffilmiau fod yn llai na **2 funud**. Mae'n rhaid cynnwys dilyniannau teitlau a chredydau yn y ffrâm amser hon, os byddwch yn penderfynu defnyddio'r rhain. Os byddwch yn ychwanegu credydau, cadwch nhw'n fyr i osgoi torri i mewn i amser eich ffilm.



Cystadleuaeth Ffilm Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel Llywodraeth Cymru

11. At ddibenion amddiffyn plant, dylai'r credydau sy'n cael eu hychwanegu ar ddiwedd unrhyw ffilm gynnwys enwau cyntaf yn unig, yn unol a'r polisi caniatâd cyfryngau. **Ni ellir ystyried unrhyw ffilm fydd yn cynnwys enwau llawn y bobl ifanc ac enw'r ysgol neu'r sefydliad ieuenctid yn y credydau ar gyfer y gystadleuaeth.** Am ragor o wybodaeth am sut rydym ni'n delio â data, darllenwch [bolisi preifatrwydd SWGfL](#) a [Hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru](#).
12. Mae'n rhaid i'r holl ffilmiau gynnwys neges gadarnhaol a nodweddion a delweddau priodol.
13. Mae'n rhaid i'r holl ffilmiau adlewyrchu'r thema.
14. Mae pwyslais y gystadleuaeth ar y neges rydych yn ei rhannu, nid ar safon broffesiynol y recordio. Fodd bynnag, rydym yn gofyn i chi gyflwyno ffilmiau o safon ddigon uchel, yn debyg i ffynonellau eraill sy'n cael eu defnyddio i addysgu eich dysgwyr chi.
15. Gwaith y bobl ifanc yn unig ddylai'r ffilmio a'r cynhyrchu fod, heb unrhyw gyfraniad gan weithwyr proffesiynol y diwydiant. Mae disgwyl i ymarferwyr gefnogi a goruchwyllo gwaith y prosiect ond heb greu cynnwys ei hunain.
16. Mae'n rhaid i'r holl ffilmiau barchu deddfau hawlfraint. Mae'n well gennym ni gerddoriaeth a chynnwys fideo gwreiddiol. Os ydych yn dymuno defnyddio deunyddiau eraill sydd â hawlfraint (e.e. cerddoriaeth, delweddau, ffilmiau) dylech gael caniatâd ysgrifenedig gan ddeiliad yr hawlfraint cyn cyflwyno'ch ffilm, a chynnwys yr wybodaeth hon gyda'ch cais.
17. Er mwyn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â thelerau cynnwys a hawlfraint cyn cyflwyno cais i Gystadleuaeth Ffilm Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i bob ffilm gael ei goruchwyllo gan athro, ymarferydd addysg neu ymarferydd ieuenctid.
18. Bydd ymgeiswyr a fydd wedi llwyddo i gyrraedd y rownd derfynol yn cael gwybod **ddydd Llun 20 Ionawr 2020**.
19. Os byddwch yn cael eich dewis ar gyfer y rownd derfynol, byddwch yn cael eich gwahodd i deithio i Gaerdydd ar gyfer y digwyddiad arddangos ffilm **ddydd Mawrth 11 Chwefror 2020** yn y Digwyddiad Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel, mewn lleoliad yng Nghaerdydd.
20. Bydd angen i ysgolion/sefydliadau ieuenctid wneud eu trefniadau teithio ei hunain ond byddant yn gallu hawlio'r costau teithio a chostau staff llanw gan Lywodraeth Cymru yn unol â rheolau Llywodraeth Cymru.
21. Bydd hebryngwyr yn cael eu caniatáu ar gyfer yr ysgolion/sefydliadau llwyddiannus a fydd yn mynd i'r digwyddiad arddangos ffilm yn y Digwyddiad Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel 2020 yng Nghaerdydd. Bydd nifer yr hebryngwyr a fydd yn derbyn gwahoddiad yn cael eu pennu yn ôl y nifer oedd yn rhan o greu'r ffilm.
22. Cofiwch roi gwybod i ni cyn y digwyddiad arddangos ffilm os oes gan eich ysgol anghenion dysgu ychwanegol er mwyn i ni allu sicrhau diwrnod llawn mwynhad i'ch dysgwyr. Anfonwch e-bost at onlinesafety@swgfl.org.uk.